# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 7 Mai 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:15** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar (Cadeirydd)**
**Mohammad Asghar (Oscar) AC**
**Mike Hedges**
**Julie Morgan**
**Jenny Rathbone**
**Aled Roberts**
**Jocelyn Davies**
**Sandy Mewies**

Tystion:

**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Matthew Mortlock, Performance Specialist. WAO**

Staff y Pwyllgor:

**Tom Jackson (Clerc)**
**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**

### 1. Ystyried gohebiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gymhorthdal Llywodraeth Cymru i'r cyswllt awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd

1.1 Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gymhorthdal Llywodraeth Cymru i'r cyswllt awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd.

1.2 Nododd y Pwyllgor fod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal astudiaeth gwerth am arian ar gaffael Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru.

1.3 Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i baratoi nodyn briffio ar gymhorthdal Llywodraeth Cymru i'r cyswllt awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd.

1.4 Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu nodyn yn amlinellu cwmpas ei ymchwiliadau i gaffael Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru ac i'r cymhorthdal y mae'n ei roi i'r cyswllt awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd.

## 2. Ystyried y cymorth a roddir i'r Pwyllgor

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr adolygiad o'r cymorth a roddir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

## 3. Ystyried y potensial i geisio'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion a wnaed yn adroddiadau blaenorol y Pwyllgor

3. 1 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig ac i ddod gerbron y Pwyllgor, er mwyn i'r Pwyllgor wneud gwaith craffu ar y mater o weithredu'r argymhellion a wnaed mewn adroddiadau Pwyllgor ar:

- Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai
- Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus
- Buddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion

## 4. Ystyried blaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer tymor yr haf 2013

4.1 Nododd y Pwyllgor ei raglen waith ar gyfer gweddill tymor y gwanwyn/yr haf 2013.

## 5. Rheoli Grantiau yng Nghymru - Ystyried yr adroddiad drafft terfynol

5.1 Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar ei adroddiad drafft ar Reoli Grantiau yng Nghymru a chytunodd i ystyried fersiwn wedi ei ddiwygio drwy e-bost.

### TRAWSGRIFIAD

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.